

**Ymateb gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
i'r Canllawiau Statudol Drafft Sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforedig**

Rwy'n falch o gael y cyfle i ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y Canllawiau Statudol Drafft Sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforedig.

Ein rôl

Fel Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC), rwy'n ymchwilio i gwynion a wnaed gan aelodau o'r cyhoedd sy'n credu eu bod wedi dioddef caledi neu anghyfiawnder drwy gamweinyddu neu fethiant gwasanaeth gan gorff o fewn fy awdurdodaeth, sydd yn ei hanfod yn cynnwys yr holl sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus sydd wedi'u datganoli i Gymru. Mae'r rhain yn cynnwys:

- llywodraeth leol (cynghorau sir a chynghorau cymuned)
- y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (gan gynnwys Meddygon Teulu a deintyddion)
- landlordiaid cymdeithasol cofrestredig (cymdeithasau tai)
- Llywodraeth Cymru, ynghyd â'i chyrrff nodedig.

Gallaf ystyried cwynion am ofal cymdeithasol a drefnwyd yn breifat neu ofal cymdeithasol a ariennir, yn ogystal â gwasanaethau gofal lliniarol ac, o dan amgylchiadau penodol, agweddau ar ofal iechyd a ariennir yn breifat.

Rwyf hefyd yn ymchwilio i gwynion bod aelodau etholedig awdurdodau lleol wedi torri eu Codau Ymddygiad, sy'n nodi'r egwyddorion ymddygiad cydnabyddedig y dylai aelodau eu dilyn mewn bywyd cyhoeddus.

Bydd y pwerau ymchwilio ar ei liwt ei hun a roddwyd imi o dan Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019 (Deddf OGCC 2019) yn fy nghaniatáu i ymchwilio pan fydd tystiolaeth yn awgrymu y gall fod methiannau systematig, hyd yn oed os nad yw defnyddwyr gwasanaeth eu hunain yn codi cwynion. Sefydlodd y Ddeddf hefyd yr Awdurdod Safonau Cwynion (CSA) i ysgogi gwelliant mewn gwasanaethau cyhoeddus trwy gefnogi ymdrin â chwynion yn effeithiol gan ddefnyddio gweithdrefnau enghreiffiol, hyfforddiant a chasglu a chyhoeddi data.

Ymdrin â Chwynion

Ar wahân i gyfeiriad byr i fy mhwerau i ymchwilio i gwynion y Cod Ymddygiad yn adran 12 y canllawiau ar 'Y Fframwaith Moesegol', rwyf yn siomedig nad oes unrhyw gyfeiriadau at Ddeddf OGCC 2019, trefniadau ar gyfer gweithdrefnau ymdrin â chwynion, na chwynion yn fwy cyffredinol yn y canllawiau statudol drafft. Gan mai diben y canllawiau yw darparu cyngor ynglŷn â sut y caiff Cyd-bwyllgorau Corfforedig eu llywodraethu a'u rhedeg, mae diffyg unrhyw ganllawiau ar Ddeddf OGCC 2019, neu safonau a gweithdrefnau ymdrin â chwynion, yn hepgoriad pryderus.

Mae gwasanaethau cwynion effeithiol a theg yn chwarae rhan hanfodol wrth ddarparu cyfiawnder i bobl sydd wedi dioddef caledi o ganlyniad i fethiant gwasanaeth neu gamweinyddu gan wasanaeth cyhoeddus. Mae fy adroddiad thematig '[Rhoi diwedd ar yr Un Hen Gân Feunyddiol: Dysgu Gwersi o Ddelion Wael â Chwynion](#)' yn tynnu sylw at y gyfran sylweddol o gwynion a gaf sy'n codi o fethiannau cyrff cyhoeddus i ddelio yn effeithiol â chwynion, sy'n deillio yn rhannol o ddiwylliant caeedig, amddiffynnol sy'n bwrw bai.

Fel 'un gwasanaeth cyhoeddus Cymru', mae'n hanfodol ein bod, gyda'n gilydd, yn dysgu o'n camgymeriadau i sicrhau na chânt eu hailadrodd. Gellir cyflawni hyn dim ond trwy ddatblygu'n ddiwylliant lle mae tryloywder, a bod yn agored i her adeiladol a myfyrion gonest wrth graidd. I gydnabod yr egwyddor hon ac fel bod Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn cael eu hystyried yn rhan annatod o'r teulu llywodraeth leol ehangach, fe'u hychwanegwyd at Atodlen 3 Deddf OGCC 2019 fel awdurdodau rhestredig yn yr haf. Maent bellach yn dod o dan fy mhwerau i ymchwilio i gwynion a wneir gan y cyhoedd am wasanaethau a ddarparwyd ganddynt a byddant yn ddarostyngedig i safonau cwynion yn y dyfodol. Mae'r pwerau hyn yn chwarae rôl allweddol a phwysig wrth gefnogi gwasanaethau cyhoeddus i wella, trwy ymchwilio ac unioni anghyfiawnderau y mae aelodau'r cyhoedd wedi'u profi oherwydd methiannau mewn gwasanaethau neu enghreifftiau o dorri'r Codau Ymddygiad perthnasol ar gyfer aelodau awdurdod lleol.

Gan fod eu prif aelodau yn dod o gynghorau cyfansoddol sydd eisoes yn ddarostyngedig i safonau ymdrin â chwynion, gyda phrosesau ymdrin â chwynion sy'n aeddfedu, nid cyrhaeddiad sylweddol yw gofyn i Gyd-bwyllgorau Corfforedig ymgorffori trefniadau ymdrin â chwynion wrth ddatblygu eu seilwaith sefydliadol. Fel y cyfryw, byddai ymgorffori canllawiau ar Ddeddf OGCC 2019 ac ymdrin â chwynion ym Mhennod 6, "Dyletswyddau Statudol Eraill", yn ddiwygiad cymesur i'r canllawiau.

Y Fframwaith Moesegol

Rwyf wedi gwneud sylwadau yn [fy ymatebion i ymgynghoriadau blaenorol ar reoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig](#) ynglŷn â fy mhryderon o ran amseriad y diwygiadau i'r Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, a'r cyfnod dros dro o ganlyniad lle na fydd aelodau neu gyfranogwyr cyfetholedig yn ddarostyngedig i fframwaith moesegol. Rwyf hefyd wedi gwneud sylwadau ar y diffyg eglurder ynghylch y rhai a

wahoddir i eistedd ar is-bwyllgorau. Fodd bynnag, gallai'r canllawiau wneud mwy i ddatrys y materion amwysedd hyn.

Ein dealltwriaeth ni, trwy ein sgysiau â swyddogion Llywodraeth Cymru, oedd y byddai Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn mabwysiadu Cod Ymddygiad, unwaith y bydd y diwygiad i Ran 3 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 yn cael ei wneud, ac y byddai'n ofynnol i bob aelod, gan gynnwys cyfranogwyr cyfetholedig, lynu wrtho. Fodd bynnag, mae'r geiriad yn y canllawiau yn ychwanegu at yr ansicrwydd a geir yn y set gyfredol o reoliadau.

Mae paragraff 12.3 yn dweud:

“Bydd y Cyd-bwyllgorau Corfforedig am ystyried a ddylai fod yn ofynnol i gyfranogwyr cyfetholedig, gyda neu heb hawliau pleidleisio, gofrestru / glynu wrth god ymddygiad fel rhan o'r 'telerau cyfethol'. Argymhellir y dylai fod yn ofynnol i'r holl gyfranogwyr cyfetholedig fabwysiadu'r cod ymddygiad fel arfer da. Dylid nodi unrhyw ofyniad o'r fath yn yr hysbysiad cyfethol.”

Mae'r geiriad hwn yn awgrymu mai disgrisiwn y Cyd-bwyllgorau Corfforedig unigol fyddai penderfynu p'un ai cymhwysu'r Cod i gyfranogwyr cyfetholedig ai peidio. Mae potensial y gallai cyfranogwyr cyfetholedig gydraddoli cynrychiolaeth aelodau ar Gyd-bwyllgorau Corfforedig ond bod yn ddarostyngedig i ddisgwyliadau gwahanol o ran safonau ymddygiad a chraffu, yn enwedig mewn Cyd-bwyllgorau Corfforedig sydd yn cynnwys dim ond nifer fach o gynghorau cyfansoddol, megis Canolbarth Cymru. Ceir risg debyg lle mae'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig wedi dirprwyo cyflawni ei ddyletswyddau i is-bwyllgorau, ac efallai na fydd gan rai ohonynt aelodau etholedig o'r cyngor yn gwasanaethu arnynt.

Yn ogystal, mae'r canllawiau'n cynghori y dylai arsylwyr a chynghorwyr ad hoc ddilyn Egwyddorion Nolan. Nid oes unrhyw ofyniad i gyfranogwyr cyfetholedig ddilyn Egwyddorion Nolan, naill ai yn y cyfnod cyn newidiadau i Ran 3 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, neu wedi hynny, mewn sefyllfaoedd lle dewisodd Cyd-bwyllgorau Corfforedig beidio â gofyn i gyfranogwyr cyfetholedig lynu wrth y Cod Ymddygiad.

Mae'n bosibl i hyder y cyhoedd yn ein cyrff democrataidd yng Nghymru gael ei danseilio gan y diffyg agwedd glir a chyson at safonau ymddygiad ar gyfer gwahanol gategoriâu o aelodau. Fel y cyfryw, fy marn i yw y dylai holl aelodau a chyfranogwyr y Cyd-bwyllgorau Corfforedig sy'n pleidleisio, boed yn aelodau cyfetholedig neu fel arall, fod yn ddarostyngedig i Fframwaith Moesegol a chod ymddygiad perthnasol.

Sylwadau cloi

Hyderaf y bydd fy sylwadau yn ddefnyddiol i chi. Os dymunwch drafod unrhyw un o'r pwyntiau a wnaed gennym, mae croeso i chi gysylltu â Tanya Nash, fy Mhennaeth Polisi (tanya.nash@ombudsman.wales).



Nick Bennett

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

Hydref 2021
